Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

# Cyngor Sir Ddinbych Cyllideb 2026 i 2027

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

# Cyllideb 2026 i 2027

## Cynnwys


Cyflwyniad 3

- Cefndir 3
- Setliad Refeniw Llywodraeth Cymru 5
- Pwysau 5
- Mesurau a gymerir i gyflawni cyllidebau cytbwys 6
- Ysgolion 7
- Treth y Cyngor 7
- Risgiau 7

Crynodeb o Gyllideb Refeniw 2026/27 9

- Cyllidebau Gwasanaeth Manwl 10
  - Tai a Chymunedau 10
  - Gwasanaethau Plant 10
  - Addysg 11
  - Cefnogaeth Gorfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau 11
  - Cefnogaeth Gorfforaethol: Pobl 12
  - Cyllid ac Archwilio 12
  - Gwasanaeth Priffyrdd ac Amgylcheddol 13
  - Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad 13
  - Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd 14
  - Model Cyflawni Amgen: Costau Gweddilliol 14
  - Corfforaethol ac Amrywiol 15
  - Eitemau eraill 15

Cyfrif Refeniw Tai 16

- Crynodeb y Cyfrif Refeniw Tai 16
  - Gwariant 16
  - Incwm 16
  - Balans 17

# Cyllideb 2026 i 2027

## Cyflwyniad


### Cefndir

Mae'n ofyniad cyfreithiol i'r Cyngor bennu cyllideb gytbwys ac ymarferol cyn dechrau pob blwyddyn ariannol a phennu lefel Treth y Cyngor sy'n deillio o hynny er mwyn gallu anfon biliau at breswylwyr.

Mae llywodraeth leol ar draws y DU yn wynebu cyfres o bwysau sylweddol. Mae'r galw am wasanaethau gan gymunedau yn dal i gynyddu ac mae natur yr anghenion hefyd wedi mynd yn fwy cymhleth mewn meysydd fel Addysg, Gofal Cymdeithasol a Digartrefedd. Mae costau yn y meysydd hyn wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r cynnydd hynny yn llawer uwch na chwyddiant. Mae'r pwysau hyn o ran cost yn dylanwadu ar wariant y Cyngor ac mewn meysydd lle mae dyletswydd statudol i ddarparu gwasanaeth ac y tu hwnt i'n rheolaeth. Effaith gyfunol y ffactorau hyn yw cynyddu gofyniad cyllidebol y Cyngor i wario ar ddarparu gwasanaethau dydd i ddydd flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae'r sefyllfa'n parhau yn 2026/27 gyda chyllideb arfaethedig y Cyngor ar gyfer 2026/27 yn cynyddu i £309 miliwn o £291 miliwn yn 2025/26 ac mae'r sefyllfa hwn yn debygol o barhau yn y blynyddoedd i ddod fel a ddangosir yng Nghynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor.

Nid oes modd ariannu'r lefelau uchel o bwysau cyllidebol hyn gyda'r cyllid ychwanegol gan y llywodraeth a chynnydd mewn Treth y Cyngor yn unig, felly mae gwariant ar wasanaethau eraill yn gorfod lleihau (mewn termau real). Cyfeirir at y gwasanaethau eraill fel gwasanaethau creu lleoedd sy'n cael eu gwerthfawrogi gan breswylwyr a chymunedau. Mae enghreifftiau o wasanaethau creu lleoedd yn cynnwys glanhau strydoedd, cynnal a chadw ffyrdd, toiledau cyhoeddus, llyfrgelloedd ac ati. Mae'r sefyllfa hon wedi bod yn mynd rhagddi ers sawl blwyddyn ac mae i'w gweld yn y graff isod:

# Cyllideb 2026 i 2027




Mae'n rhaid i'r Cyngor osod cyllideb gytbwys ac nid oedd unrhyw ddewis ond lleihau gwariant / lleihau gwasanaethau yn y swyddogaethau creu lleoedd hyn, sy'n darparu gwasanaethau i'r gymuned ehangach, i ddarparu'r costau cynyddol yn sgil darparu gwasanaethau statudol uniongyrchol i'r rhai mwyaf diamddiffyn yn ein cymunedau, yr unigolion sydd eu hangen fwyaf. Nid yw Cyngor Sir Ddinbych yn wahanol i'r holl Gynghorau eraill yn y DU yn hyn o beth, ond mae ei broblemau'n ddifrifol o ystyried fod ganddo 2 o'r wardiau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, ac ardaloedd eraill o amddifadedd cydnabyddedig ar draws y Sir.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf nid yw'r cyllid gan Lywodraeth Cymru wedi bod yn ddigonol i gyd-fynd â'r galw am wasanaethau na'r cynnydd yn y costau. Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb cyfreithiol i gydbwyso cyllidebau ac wrth wneud hynny mae wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd fel cynyddu Treth y Cyngor a lleihau rhai gwasanaethau. O ystyried graddfa sefyllfa ariannol tymor canolig y Cyngor ac effaith gronnus canfod arbedion blynyddol ers dros ddegawd mae'r Cyngor wedi bod yn datblygu ymagwedd sy'n fwy trawsnewidiol tuag at yr angen i leihau y costau a nodir o fewn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

Mae pwysau cyllidebol yn parhau i fod yn uchel yn 2026/27, mae'r cynnydd mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru yn cyfrannu ychydig at fynd i'r afael â'r pwysau hynny, er nad yw'n ddigon i atal yr angen i gynyddu Treth y Cyngor. Os na fyddai'r cyllid ychwanegol wedi bod ar gael rhwng y setliad dros dro a'r setliad terfynol gan Lywodraeth Cymru, yna byddai

# Cyllideb 2026 i 2027

Treth y Cyngor wedi gorfod bod yn uwch, a byddai cynigion a gymeradwywyd i gydbwyso cyllideb 2026/27 a oedd wedi'u categoreiddio fel gostyngiadau i ddarpariaeth wedi bod yn angenrheidiol, yn hytrach, roedd y cynigion a gymeradwywyd yn canolbwyntio ar y categorïau o effeithiolrwydd, creu incwm ac o brosiectau i drawsnewid darpariaeth gwasanaeth.

Mae rhagolygon ar gyfer 2027/28 a 2028/29 yn dangos yn glir y bydd heriau ariannol y Cyngor yn parhau yn y tymor canolig. Hyd yn hyn mae'r Cyngor wedi rheoli ei heriau ariannol yn ddarbodus trwy ystyried rhagolygon tymor canolig ac mae hyn angen parhau. Mae'r rhagolygon yn dangos bod angen i'r Cyngor barhau yn ei dull strategol o leihau'r gost o ddarparu gwasanaeth. Gwneir pob ymdrech i sicrhau y gallwn gydbwyso cyllidebau yn y dyfodol trwy drawsnewid y ffordd caiff gwasanaethau'r Cyngor eu darparu, yn hytrach na gwneud toriadau i wasanaethau, fodd bynnag, rhaid i ni gydnabod bod trawsnewid yn anodd, ac yn cymryd amser ac adnoddau, a pha mor ddibynnol mae llywodraeth leol Cymru ar gyllid gan Lywodraeth Cymru i osod y gyllideb.

## Setliad Refeniw Llywodraeth Cymru

Mae dosbarthiad y setliad i awdurdodau unigol yn dibynnu ar fformiwla'r Asesiad o Wariant Safonol. Ar gyfer 2026/27 nid oedd unrhyw newidiadau sylweddol i'r fformiwla.

Mae Cyllid Allanol Cyfun terfynol y Cyngor, sy'n cynnwys y Grant Cynnal Refeniw a'n cyfran ni o gronfa Ardrethi Annomestig Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026/27 yn dod i £229.908 miliwn.

Mae oddeutu 75% o gyllideb (net) y Cyngor yn cael ei ariannu gan setliad gan Lywodraeth Cymru. Ar ôl cyfres o gyhoeddiadau yn Hydref 2025, mae'r Setliad Terfynol ar gyfer 2026/27 bellach wedi'i gadarnhau gan arwain at gynnydd o £14.657 miliwn neu 6.8% o'i gymharu â'r lefel o gyllid a dderbyniwyd ar ddechrau 2025/26 o £215.251 miliwn.

## Pwysau

Mae pwysau cyllidebol yn adlewyrchu'r cynnydd a amcangyfrifir yn y costau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu yn y flwyddyn ariannol nesaf yn seiliedig ar farn a rhagolygon o alw am wasanaethau.

# Cyllideb 2026 i 2027

Mae’r pwysau sydd wedi’u cynnwys yng nghyllideb 2026/27 yn dod i £21.341 miliwn. Mae hyn yn cyfateb i 7.34% o gyllideb 2025/26 a’r bedwaredd flwyddyn yn olynol i’r pwysau fod yn fwy nag £20 miliwn.

Mae’r meysydd lle mae pwysau yn gyffredin i’r sector llywodraeth leol ac yn parhau i roi straen ar gyllidebau’r awdurdod lleol. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Dyfarniadau cyflog - mae’r rhain yn cael eu cytuno’n genedlaethol ar gyfer staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu
- Gwasanaethau Oedolion – cynnydd yn ffioedd darparwyr a chynnydd o ran cymhlethdod yr anghenion
- Gwasanaethau Plant – lleoliadau gofal cymdeithasol ac addysgol arbenigol
- Cyllidebau ysgolion

Anghenion Dysgu Ychwanegol - costau ehangu darpariaeth y gwasanaeth mewnol i gwrdd â’r cynnydd o ran cymhlethdod yr anghenion a’r galw cynyddol am Anghenion Dysgu Ychwanegol yn dilyn cyflwyno deddfwriaeth newydd.

## Mesurau a gymerir i gyflawni cyllidebau cytbwys

O ystyried graddfa sefyllfa ariannol tymor canolig y Cyngor ac effaith gronnus canfod arbedion blynyddol ers dros ddegawd mae’r Cyngor wedi bod yn datblygu ymagwedd sy’n fwy trawsnewidiol tuag at yr angen i leihau y costau a nodir o fewn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Oherwydd bod y setliad gan LIC yn well na’r disgwyl, mae’r cynigion o ran arbedion yn canolbwyntio ar gategorïau effeithlonrwydd, incwm a phrosiectau trawsnewid, ac arall. Nid oes unrhyw un wedi’u categoreiddio fel ‘gostyngiad mewn darpariaeth gwasanaeth’.

O ystyried y bydd yr heriau ariannol sy’n wynebu’r Cyngor yn parhau i’r tymor canolig, mae llawer o gynigion arbedion, yn cynnwys sawl prosiect trawsnewid parhaus, yn dal yn cael eu datblygu ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Mae’r cynigion i gyflawni cyllideb gytbwys yn 2026/27 yn dod i gyfanswm o £3.170 miliwn ac wedi’u crynhoi fel a ganlyn:

# Cyllideb 2026 i 2027

| Arbediad | £m |
|---|---|
| Arbedion effeithlonrwydd | 0.076 |
| Incwm | 0.116 |
| Trawsnewid | 1.190 |
| Arall | 1.788 |
| **Cyfanswm Arbedion** | **3.170** |

### Ysgolion

Cafodd ysgolion gynnydd mewn cyllid o 4.93% ar gyfer 2026/27 i dalu am bwysau chwyddiannol ar gyfer cyflogau ac ati ac, o ystyried y pwysau o ganlyniad i fwy o anghenion, galw a llwyth gwaith mewn ysgolion, ni ofynnwyd iddynt am unrhyw ostyngiad i gyllidebau ac eithrio demograffeg.

### Treth y Cyngor

Yn seiliedig ar y gofyniad cyllidebol ychwanegol terfynol, mae angen cynnydd o 4.76% yn Nhreth y Cyngor ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor a 0.46% ar gyfer y cynnydd yn ardoll i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. 2Mae hyn yn cyfateb i gynnydd cyffredinol o 5.22% ac yn darparu arenillion ychwanegol o £3.513 miliwn yn 2026/27.

Mae'r cynnydd ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor ynghyd â'r ardoll tân yn dod i gynnydd cyfartalog o £92.89 y flwyddyn ac yn dod â'r cyfanswm ar gyfer eiddo Band D i £1,872.37 (£1.79 yr wythnos). Mae rhagor o wybodaeth am Dreth y Cyngor ar gael ar wefan y https://www.denbighshire.gov.uk/cy/treth-y-cyngor/esboniad-och-bil-treth-y-cyngor.aspx#CyllidebRefeniwCyngor

### Risgiau

Mae'r broses gyllidebol ynddi ei hun yn ddull o reoli risg, gyda'r nod o lunio cynigion ar gyfer y gyllideb, eu hasesu a chytuno arnynt mewn ffordd drefnus a phrydlon.

Mae rhagweld pwysau costau yn parhau i fod yn dasg heriol wrth lunio cynigion ar gyfer y gyllideb. Mae'r pwysau o ran costau wedi'u sbarduno gan gynnydd yn y galw am

# Cyllideb 2026 i 2027

wasanaethau a gan gynnydd yn y costau. Er gwaethaf defnyddio'r rhagolygon diweddaraf o'r galw wrth gyfrifo'r gyllideb, mae'r rhain yn amcangyfrifon ac mae risgiau'n parhau o ran y gall y gwariant fod yn fwy na'r cyllidebau er bod y cyllidebau wedi'u cynyddu yn y flwyddyn ariannol newydd. Yn arbennig, mae yna alw penodol am wasanaethau statudol o fewn gofal cymdeithasol ac addysg. Mae cronfeydd wrth gefn y Cyngor yn lliniaru rhag i risgiau o'r fath gael eu gwireddu yn ystod y flwyddyn.

Mae'r mesurau arfaethedig ar gyfer cydbwyso cyllideb 2026/27 yn dod i £3.170 miliwn ond nid yw hynny'n swm sylweddol, yn enwedig ar ôl arbedion o tua £10 miliwn (ac eithrio ysgolion) a gyflawnwyd wrth osod cyllidebau ar gyfer 2024/25 a 2025/26.

Er gwaethaf monitro costau'n ofalus ac olrhain cynigion arbedion, yn y pen draw os bydd gorwariant sylweddol yn ystod y flwyddyn yn 2026/27, ac os na fydd cynigion arbedion yn gallu cael eu cyflawni, bydd hyn yn arwain at ddibynnu ar gronfeydd wrth gefn yn 2026/27. Bydd hyn yn lleihau lefel cynaliadwyedd a gwydnwch ariannol y Cyngor yn y dyfodol. Mae'r sefyllfa ariannol yn hynod o heriol ac mae rheolaeth ariannol effeithiol a disgybledig yn ystod y flwyddyn gan holl ddeiliaid y gyllideb yn hollbwysig.

# Cyllideb 2026 i 2027

## Crynodeb o Gyllideb Refeniw 2026/27

| Gwasanaeth | Cyllideb 2025/26 £'000 | Cyllideb wedi'i Haddasu 2025/26* £'000 | Demograffeg £'000 | Chwyddiant £'000 | Pwysau £'000 | Arbedion/ Toriadau £'000 | Cyllideb 2026/27 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Model Cyflawni Amgen: Costau Gweddilliol | 3,583 | 3,465 | | | 571 | 0 | 4,036 |
| Tai a Chymunedau | 2,674 | 2,743 | | | 37 | -35 | 2,746 |
| Gwasanaethau Plant | 21,754 | 21,761 | | | 2,276 | -794 | 23,244 |
| Addysg | 7,262 | 7,298 | | | 1,733 | -219 | 8,812 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol: Perfformiad, Digidol, Asedau | 8,751 | 8,971 | | | 373 | -271 | 9,073 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol: Pobl | 4,341 | 4,346 | | | 115 | -128 | 4,333 |
| Cyllid ac Archwilio | 3,805 | 3,766 | | | 261 | -91 | 3,936 |
| Gwasanaeth Priffyrdd ac Amgylcheddol | 21,284 | 21,485 | | | 716 | -309 | 21,893 |
| Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaeth Cefn Gwlad | 11,912 | 11,960 | | | 412 | -139 | 12,233 |
| Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd | 63,287 | 63,284 | | | 4,724 | -758 | 67,250 |
| Corfforaethol ac Amrywiol | 20,745 | 20,304 | | 3,491 | 685 | -6 | 24,474 |
| Ysgolion | 93,962 | 93,969 | -165 | 4,124 | 1,016 | -421 | 98,523 |
| Ardoll Tân | 7,278 | 7,278 | | | 344 | 0 | 7,622 |
| Ariannu Cyfalaf | 20,099 | 20,103 | | | 628 | 0 | 20,731 |
| **Cyfanswm Gwariant Net** | **290,735** | **290,735** | **-165** | **7,615** | **13,891** | **-3,170** | **308,905** |

| Wedi'i ariannu gan: | 2025/26 £'000 | % | 2026/27 £'000 | % |
|---|---|---|---|---|
| Cyllid Llywodraeth Cymru | 215,251 | 74% | 229,908 | 74% |
| Incwm Treth y Cyngor | 75,483 | 26% | 78,997 | 26% |
| **Cyfanswm** | **290,735** | **100%** | **308,905** | **100%** |

2025/26* Ar ôl addasu ar gyfer trosglwyddiadau / ail-ddyrannu yn ystod y flwyddyn ar gyllidebau a gedwir yn ganolog.

# Cyllideb 2026 i 2027

## Cyllidebau Gwasanaeth Manwl

### Tai a Chymunedau

| **Ardal Gwasanaeth** | **Cyllideb 2026/2027 £** | **Cyllideb 2025/2026 £** |
|---|---:|---:|
| Gwasanaeth Archifau | 271,213 | 265,956 |
| Rheolaeth a Chefnogaeth | 103,875 | 111,839 |
| Tîm Gwydnwch Cymunedol | 157,436 | 157,585 |
| Sir Ddinbych yn Gweithio | 0 | 3,540 |
| Adnewyddu Tai | 21,920 | 22,208 |
| Strategaeth Tai | 93,775 | 77,300 |
| Llyfrgelloedd a Siopau Un Alwad | 1,544,970 | 1,515,780 |
| Gwasanaethau Ieuenctid | 552,437 | 519,485 |
| **Cyfanswm Tai a Chymunedau** | **2,745,626** | **2,673,693** |

### Gwasanaethau Plant

| **Ardal Gwasanaeth** | **Cyllideb 2026/2027 £** | **Cyllideb 2025/2026 £** |
|---|---:|---:|
| Gwasanaethau Cefnogi Teuluoedd | 1,048,936 | 1,068,949 |
| Gwasanaethau Plant sy'n Derbyn Gofal | 16,844,488 | 15,359,494 |
| Gwasanaethau Plant Eraill | 804,884 | 744,661 |
| Ansawdd Ymarfer a Diogelu | 562,472 | 570,844 |
| Strategaeth y Gwasanaeth | 3,690,754 | 3,717,522 |
| Cyfiawnder Ieuenctid | 292,069 | 292,069 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Plant** | **23,243,603** | **21,753,539** |

# Cyllideb 2026 i 2027

## Addysg

| Ardal Gwasanaeth | Cyllideb 2026/2027 £ | Cyllideb 2025/2026 £ |
|---|---|---|
| Ysgolion: Dirprwyedig | 96,947,090 | 92,393,090 |
| Ysgolion: Heb eu Dirprwyo | 1,575,614 | 1,568,713 |
| **Cyfanswm Ysgolion** | **98,522,704** | **93,961,803** |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant | 4,078,733 | 2,390,473 |
| Cefnogi Ymddygiad ac Unedau Cyfeirio Disgyblion | 1,344,109 | 1,310,399 |
| Moderneiddio Addysg a Mynediad at Ysgolion | 1,392,703 | 1,364,084 |
| Addysg Gynnar | 786,016 | 687,419 |
| Gwella Ysgolion | 1,210,089 | 1,509,779 |
| **Cyfanswm (Nid Ysgolion)** | **8,811,650** | **7,262,154** |
| **Cyfanswm Addysg** | **107,334,354** | **101,223,957** |

## Cefnogaeth Gorfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau

| Ardal Gwasanaeth | Cyllideb 2026/2027 £ | Cyllideb 2025/2026 £ |
|---|---|---|
| Asedau Strategol | 1,633,195 | 1,474,521 |
| Rhaglen Hinsawdd a Natur (Ledled y Cyngor) | 1,223,071 | 1,219,800 |
| Mewnwelediad, Strategaeth a Chyflawni | 566,663 | 569,249 |
| TGCh a Gwasanaethau Digidol | 3,545,529 | 3,368,142 |
| Gwasanaethau Eiddo Technegol | 2,104,853 | 2,118,924 |
| **Cyfanswm Cefnogaeth Gorfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau** | **9,073,311** | **8,750,636** |

# Cyllideb 2026 i 2027

## Cefnogaeth Gorfforaethol: Pobl

| Ardal Gwasanaeth | Cyllideb 2026/2027 £ | Cyllideb 2025/2026 £ |
|---|---:|---:|
| Gwasanaethau Democrataidd | 861,919 | 861,548 |
| Cyfathrebu ac Ymgysylltu | 549,940 | 553,687 |
| Iechyd a Diogelwch Corfforaethol | 108,772 | 108,077 |
| Canolfan Gyswllt Gorfforaethol | 567,208 | 568,423 |
| Gwasanaethau Cyfreithiol | 889,033 | 811,783 |
| Adnoddau Dynol | 990,852 | 938,807 |
| Cymorth Cofrestru, Dinesig, a Busnes | 114,476 | 241,103 |
| Caffael Cydweithredol a Fframwaith | 251,036 | 257,318 |
| **Cyfanswm Cefnogaeth Gorfforaethol: Pobl** | **4,333,236** | **4,340,746** |

## Cyllid ac Archwilio

| Ardal Gwasanaeth | Cyllideb 2026/2027 £ | Cyllideb 2025/2026 £ |
|---|---:|---:|
| Archwilio | 316,902 | 275,594 |
| Cyllid | 1,846,948 | 1,747,163 |
| Refeniw a Budd-daliadau | 1,211,525 | 1,264,522 |
| Asesiadau Ariannol (Llys Gwarchod) | 560,635 | 517,378 |
| **Cyfanswm Cyllid ac Archwilio** | **3,936,010** | **3,804,657** |

# Cyllideb 2026 i 2027

## Gwasanaeth Priffyrdd ac Amgylcheddol

| Ardal Gwasanaeth | Cyllideb 2026/2027 £ | Cyllideb 2025/2026 £ |
|---|---:|---:|
| Cyfleusterau (Glanhau, Arlwyo) | 2,940,571 | 2,768,072 |
| Ansawdd a Pherfformiad, Storfeydd, Depos, Fflyd | 699,312 | 665,931 |
| Cynnal a Chadw Priffyrdd | 3,039,558 | 3,043,879 |
| Gwasanaethau Stryd | 3,834,118 | 3,756,764 |
| Cynnal a Chadw'r Gaeaf | 1,321,081 | 1,281,081 |
| Gwastraff ac Ailgylchu | 8,805,666 | 8,509,754 |
| Goleuadau Stryd | 1,252,310 | 1,258,195 |
| **Cyfanswm y Gwasanaeth Priffyrdd ac Amgylcheddol** | **21,892,616** | **21,283,676** |

## Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad

| Ardal Gwasanaeth | Cyllideb 2026/2027 £ | Cyllideb 2025/2026 £ |
|---|---:|---:|
| Cefn Gwlad a Threftadaeth | 1,635,686 | 1,683,803 |
| Traffig a Pharcio | -708,854 | -806,793 |
| Cludiant | 8,620,320 | 8,596,612 |
| Datblygu Economaidd a Busnes | 305,366 | 309,694 |
| Cynllunio | 909,232 | 712,136 |
| Gwarchod y Cyhoedd | 1,471,677 | 1,416,534 |
| **Cyfanswm Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad** | **12,233,427** | **11,911,986** |

# Cyllideb 2026 i 2027

## Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd

| Ardal Gwasanaeth | Cyllideb 2026/2027 £ | Cyllideb 2025/2026 £ |
|---|---:|---:|
| Cymorth Busnes, Contractau a Chomisiynu | 2,020,402 | 2,019,777 |
| Gofal a Chymorth Mewnol | 5,024,211 | 4,870,902 |
| Gofalwyr | 554,049 | 554,678 |
| Byw yn y Gymuned | 8,865,437 | 8,865,437 |
| Gofal Cymunedol - Pobl Hŷn | 18,799,768 | 18,799,768 |
| Gofal Cymunedol - Anabledd Corfforol a Nam ar y Synhwyrau | 2,028,077 | 2,028,077 |
| Cefnogi Gofal Cymunedol - Pobl Hŷn ac Anabledd Corfforol a Nam ar y Synhwyrau | 3,436,301 | 3,472,508 |
| Gofal Cymunedol - Gwasanaethau Iechyd Meddwl | 4,668,391 | 4,657,420 |
| Gofal Cymunedol - Anableddau Cymhleth | 9,006,633 | 9,006,633 |
| Cefnogi Gofal Cymunedol - Iechyd Meddwl, Anableddau Cymhleth | 1,230,980 | 1,239,600 |
| Cefndy | 83,392 | 79,000 |
| Gwasanaethau Canolog Oedolion | 6,569,056 | 2,634,789 |
| Digartrefedd | 4,963,080 | 5,058,234 |
| **Cyfanswm Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd** | **67,249,777** | **63,286,823** |

## Model Cyflawni Amgen: Costau Gweddilliol

| Ardal Gwasanaeth | Cyllideb 2026/2027 £ | Cyllideb 2025/2026 £ |
|---|---|---|
| Model Cyflawni Amgen: Gwasanaethau Hamdden | 4,036,483 | 3,583,259 |
| **Cyfanswm Model Cyflawni Amgen: Costau Gweddilliol** | **4,036,483** | **3,583,259** |

# Cyllideb 2026 i 2027

## Corfforaethol ac Amrywiol

| Ardal Gwasanaeth | Cyllideb 2026/2027 £ | Cyllideb 2025/2026 £ |
|---|---|---|
| Cynllunio Corfforaethol - a gedwir ar gyfer cynnydd chwyddiannol | 8,664,815 | 6,108,493 |
| Gwasanaethau Corfforaethol - costau ar draws y Cyngor | 1,292,604 | 775,821 |
| Crwneriaid | 271,033 | 270,574 |
| Aelodau | 1,533,895 | 1,379,376 |
| Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor | 12,711,200 | 12,211,200 |
| **Cyfanswm Corfforaethol ac Amrywiol** | **24,473,547** | **20,745,464** |

## Eitemau eraill

| Ardal Gwasanaeth | Cyllideb 2026/2027 £ | Cyllideb 2025/2026 £ |
|---|---|---|
| Ariannu Cyfalaf | 20,731,151 | 20,098,515 |
| Ardoll Awdurdod Tân Gogledd Cymru | 7,621,598 | 7,277,858 |
| **Cyfanswm arall** | **21,493,310** | **27,376,373** |

# Cyllideb 2026 i 2027

## Cyfrif Refeniw Tai

Mae’r gyllideb ar gyfer y stoc dai wedi’i chadw yn y Cyfrif Refeniw Tai. Yn ôl y gyfraith mae'n rhaid i hwn gael ei gadw yn hollol ar wahân i wasanaethau eraill y Cyngor. Ni all Treth y Cyngor gael ei ddefnyddio i ariannu unrhyw wariant Cyfrif Refeniw Tai ac ni ellir defnyddio rhenti tai ar gyfer unrhyw beth heblaw gwasanaethau tai.

### Crynodeb y Cyfrif Refeniw Tai

#### Gwariant

| **Gwariant** | **2026/27 £'000** | **2026/27 £'000** |
|---|---:|---:|
| Rheoli a Chynnal a Chadw Tai | 11,523 | 11,019 |
| Taliadau Cyfalaf | 7,925 | 7,723 |
| Darpariaeth ar gyfer Drwgddyledion. | 154 | 152 |
| Cyfraniad Refeniw i Gyfalaf | 1,711 | 1,489 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **21,313** | **20,383** |

#### Incwm

| **Incwm** | **2026/27 £'000** | **2026/27 £'000** |
|---|---:|---:|
| Rhenti | 20,026 | 19,129 |
| Ffioedd Gwasanaeth | 493 | 483 |
| Garejys | 197 | 193 |
| Llog | 31 | 33 |
| Grant Tai Fforddiadwy | 135 | 135 |
| Incwm Arall | 407 | 357 |
| **Cyfanswm Incwm** | **21,289** | **20,330** |

# Cyllideb 2026 i 2027

## Balans

| Balans | 2026/27 £'000 | 2026/27 £'000 |
|---|---|---|
| Balans a Ddygwyd Ymlaen | 813 | 866 |
| Arian Dros Ben yn ystod y Flwyddyn (-) / Diffyg | 24 | 53 |
| **Balans y Cyfrif Refeniw Tai a Ddygwyd Ymlaen** | **789** | **813** |

* Cyllideb Ddiwygiedig 2025/26 fel yr adroddwyd yng nghyfarfod y Cabinet ar 11 Rhagfyr 2025.